Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Danygraig
# Stryd yr Ysgol
# Port Tennant
# Abertawe
# SA1 8LE

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/08/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Danygraig ar ochr ddwyreiniol Abertawe yn awdurdod lleol Abertawe.

Mae 283 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 54 o ddisgyblion sy'n mynychu'r meithrin yn rhan-amser.

Mae tua 39% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 90% o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig a daw rhai ohonynt o gefndiroedd ethnig eraill. Mae rhai disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg mamiaith.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 38% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae dau ddosbarth â chyfleusterau addysgu arbenigol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r rhain ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol. Daw llawer o'r disgyblion yn y dosbarthiadau hyn o'r tu allan i ddalgylch lleol yr ysgol. Mae gan rai disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym 1997. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol yn 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Danygraig yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,990 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Abertawe yw £7,839 a'r isafswm, yw £2,665. Mae Ysgol Gynradd Danygraig yn y 15fed safle allan o'r 80 o ysgolion cynradd yn Abertawe o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Mae disgyblion ar raglenni ymyrraeth yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Mae lefelau presenoldeb yn dda
- Mae disgyblion yn foesgar a chwrtais
- Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod addas o strategaethau addysgu yn effeithiol i ymgysylltu â disgyblion
- Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn sydd ag ethos cynhwysol

Fodd bynnag:

- Nid yw llawer o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon da
- Nid oes cynlluniau cwricwlwm ar waith i sicrhau dilyniant o ran addysgu Saesneg a mathemateg
- Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn bodloni gofynion statudol
- Nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion o wahanol alluoedd
- Nid yw athrawon yn cymhwyso strategaethau asesu cyson i helpu disgyblion i wybod yr agweddau pwysicaf ar eu gwaith i'w gwella

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn creu amgylchedd gofalgar a chefnogol o fewn yr ysgol
- Mae gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n gryf ar les disgyblion ac mae pob aelod o staff yn cefnogi hyn yn effeithiol
- Mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau mwy cynhwysfawr ar gyfer arfarnu ei gwaith yn ddiweddar
- Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio data yn effeithlon i helpu nodi diffygion mewn deilliannau ar gyfer disgyblion a datblygu blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol

- Mae'r ysgol yn gweithio'n ddiwyd gydag ystod werth chweil o bartneriaid sy'n cael effaith fuddiol ar gyflawniad a lles disgyblion
- Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'i chlwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd leol i rannu profiadau ac adnoddau yn effeithiol

Fodd bynnag:

- Nid oes gan arweinwyr ffocws digon craff ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion bob amser
- Nid yw arweinwyr yn nodi diffygion pwysig mewn safonau ac addysgu yn ddigon trylwyr
- Mae'r rheolaeth ar adnoddau a'u dyraniad yn wan
- Nid yw'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yr ysgol yn gadarn

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau ar gyfer bechgyn

A2 Gwella ansawdd a safon ysgrifennu disgyblion

A3 Datblygu cynllunio tymor hir sy'n sicrhau ymdriniaeth systematig â'r cwricwlwm ar draws yr ysgol

A4 Sicrhau bod yr holl ddysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn adlewyrchu gofynion y Cyfnod Sylfaen

A5 Sicrhau bod yr holl athrawon yn cynllunio dysgu sy'n bodloni anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rhai mwy abl

A6 Mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch a nodwyd gan y tîm yn ystod yr arolygiad

A7 Sicrhau bod yr holl arweinwyr yn cyflawni eu rolau strategol yn llawn ac yn mynd i'r afael â thanberfformio yn drylwyr

A8 Sicrhau bod y pennaeth a'r corff llywodraethol yn dyrannu adnoddau ariannol yr ysgol yn briodol i fodloni anghenion llawn yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar oedolion. Er bod angen cymorth ar leiafrif o ddisgyblion i ddechrau datblygu medrau siarad effeithiol, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn siarad yn glir wrth ymateb i gwestiynau a siarad ag oedolion a'u cyfoedion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando gyda diddordeb ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn siarad gyda hyder cynyddol a geirfa gynyddol, er enghraifft wrth esbonio'r rhesymau dros ddewis eitemau i fynd i ynys bell.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu medrau darllen priodol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn darllen ar lefel addas ac yn defnyddio ystod o strategaethau priodol, gan gynnwys eu gwybodaeth am seiniau llythrennau, i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn gallu trafod y prif syniadau yn y storïau y maent yn eu darllen. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion yn darllen testunau islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen. Gallant esbonio'r mathau o lyfrau y maent yn eu hoffi, er enghraifft llyfrau a ysgrifennwyd gan Roald Dahl. Mae darllenwyr mwy abl yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddarllen, er enghraifft esbonio ymddygiad cymeriadau yn briodol. Fodd bynnag, nid oes gan ddisgyblion ar draws y cyfnod allweddol ddigon o strategaethau darllen i'w defnyddio wrth ddarllen geiriau newydd neu anos. Mae disgyblion mwy abl yn dod o hyd i wybodaeth mewn llyfrau ffeithiol yn dda, er enghraifft trwy ddefnyddio'r dudalen gynnwys a'r eirfa. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn dda ar gyfer ymchwilio.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau byr at ystod gyfyngedig o ddibenion, er enghraifft ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer plannu hadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol at ystod ehangach o ddibenion. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu pytiau dyddiadur fel milwyr yn y ffosydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd ar lefel debyg ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml. Mae gormod o ddisgyblion yn sillafu geiriau cyffredin yn anghywir ac nid ydynt yn defnyddio strategaethau sillafu priodol wrth geisio ysgrifennu geiriau anghyfarwydd. Nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau llawysgrifen addas ac nid ydynt yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif addas wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, maent yn dysgu adio a thynnu'n briodol. Maent

yn defnyddio'r medrau hyn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm o bryd i'w gilydd, er enghraifft wrth fesur taldra. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol llawer o ddisgyblion yn briodol. Er enghraifft, maent yn cyfrifo perimedr siapiau afreolaidd yn gywir ac yn deall iaith tebygolrwydd yn dda. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn ddigon aml yn eu gwaith testun. O ganlyniad, nid yw llawer ohonynt yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae disgyblion ar raglenni ymyrraeth yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn cynnwys dau gyfleuster addysgu arbenigol, un ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac un ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn tueddu i berfformio cystal â disgyblion eraill, yn enwedig o ran cyflawni'r lefelau uwch na'r disgwyl. Mae merched fel grŵp wedi cyflawni'n well na bechgyn yn gyson ar ddiwedd y cyfnodau allweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb gyda dealltwriaeth i gyfarwyddiadau sylfaenol yn Gymraeg, ac mae llawer ohonynt yn ymateb i gwestiynau syml gan ddefnyddio geirfa gyfarwydd, er enghraifft wrth roi gwybodaeth bersonol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhai disgyblion mwy abl yn darllen testunau cyfarwydd yn dda. Mae gan fwyafrif y disgyblion eirfa a gwybodaeth sylfaenol am batrymau brawddeg syml y maent yn eu defnyddio'n addas wrth iddynt siarad ac ysgrifennu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion ar ddeilliant disgwyliedig 5 mewn llythrennedd wedi tueddu i osod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn datblygiad mathemategol wedi tueddu i osod yr ysgol yn y 50% uwch. Mae perfformiad disgyblion ar y deilliant 6 uwch na'r disgwyl mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gwella dros gyfnod, ac yn 2014, mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, ar y lefel 4 ddisgwyliedig, mae perfformiad disgyblion yn amrywiol. Yn 2014, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 5, mae perfformiad disgyblion yn gyffredinol wedi'i gosod yn y 50% uwch am y pedair blynedd ddiwethaf.

### Lles: Da

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae bron pob un ohonynt yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os oes ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon. Mae disgyblion yn arwain cyfarfodydd i ddatrys materion yn effeithiol ac fe gaiff hyn effaith gref ar sefydlu lefelau da o ymddygiad ar draws yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i aros yn iach, er enghraifft trwy fwyta diet cytbwys sy'n cynnwys ffrwythau a llysiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol, fel athletau, criced a gymnasteg.

Mae bron pob un o'r disgyblion wedi'u cymell i ddod i'r ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgysylltu'n dda yn eu dysgu. Dangosant lefelau uchel o barch, gofal a phryder am bobl eraill. Mae hyn yn amlwg iawn yn y ffordd y maent yn gofalu am, a chefnogi disgyblion o'r cyfleusterau addysgu arbenigol yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 fel ei gilydd.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am yr ysgol trwy ystod o bwyllgorau effeithiol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn ysgogi gwelliannau buddiol i amgylchedd yr ysgol, er enghraifft trwy sefydlu twnnel polythen i dyfu llysiau. Maent yn cymryd eu cyfrifoldebau yn ddifrifol iawn.

Mae lefelau presenoldeb yn dda. Mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Nid yw cynllunio tymor hir yr ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cynnwys digon o fanylion i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion llawn y cwricwlwm. Er enghraifft, nid oes cynlluniau gwaith yn eu lle ar gyfer mathemateg a Saesneg. O ganlyniad, nid yw cynllunio athrawon yn eu helpu i adeiladu'n ddigon da ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion. Mae'r cynllunio ar gyfer disgyblion yn y cyfleusterau addysgu arbenigol yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn cael profiadau dysgu ysgogol a difyr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn wan. Mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â dysgu yn yr awyr agored. Mae oedolion yn rhoi cyfarwyddyd ar gyfer gormod o'r profiadau dysgu cynlluniedig, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o benderfyniadau ynghylch beth a sut maent yn dysgu.

Mae cynllunio tymor canolig yr ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau ehangach ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, gan nad oes canlyniadau cynllunio tymor byr manylach, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i gymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd trwy bynciau eraill. Mae llawer o feysydd y cwricwlwm yn dibynnu gormod ar lenwi taflenni gwaith, yn enwedig mewn mathemateg ac ar gyfer gweithgareddau ysgrifennu. O ganlyniad, ni chaiff y rhan fwyaf o ddisgyblion ddigon o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig. Nid oes gan yr ysgol brosesau priodol ar waith i sicrhau ymdriniaeth lawn â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddarllen ac ysgrifennu testunau Cymraeg syml. Fodd bynnag, nid oes cynllunio ysgol gyfan ar gyfer addysgu medrau Cymraeg. O ganlyniad, mae athrawon mewn gwahanol grwpiau blwyddyn yn cynllunio gweithgareddau tebyg ac nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft trwy astudio bywyd a gwaith Dylan Thomas.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall bod angen lleihau gwastraff ac arbed ynni.

Er enghraifft, maent yn gwybod sut i arbed dŵr a diffodd offer i arbed trydan. Mae'r cyngor eco yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at ymestyn ymwybyddiaeth pob disgybl am faterion byd-eang, er enghraifft trwy godi arian ar gyfer plant mewn gwledydd tlotach. Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am fywyd mewn gwledydd eraill, er enghraifft trwy astudio coedwigoedd glaw ym Mrasil.

**Addysgu: Digonol**

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu i ymgysylltu â disgyblion yn effeithiol, ac maent yn rhannu amcanion dysgu gyda disgyblion yn briodol. Mae gan bob un o'r athrawon berthynas waith gref gyda disgyblion, ac mae hyn yn creu awyrgylch lle mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus i gyfrannu mewn gwersi. Mae athrawon yn defnyddio ystod addas o dechnegau holi effeithiol i ymestyn ffordd disgyblion o feddwl mewn gwersi. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw mwyafrif o athrawon yn addasu gwaith yn ddigon da i fodloni anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl. O ganlyniad, nid yw tasgau yn herio disgyblion ddigon ar lefel addas ac mae hyn yn rhwystro eu cynnydd. Mae'r addysgu yn y cyfleusterau addysgu arbenigol yn hynod effeithiol o ran bodloni anghenion y dysgwyr hyn. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion yn y dosbarthiadau hyn agweddau cadarnhaol at ddysgu, a gwnânt gynnydd priodol. Mae'r rhan fwyaf o gynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt â llythrennedd a rhifedd.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Yn gyffredinol, maent yn darparu sylwadau sy'n dangos i ddisgyblion beth maent wedi'i wneud yn dda, ond nid ydynt bob amser yn nodi'n ddigon clir beth mae angen i ddisgyblion ei wneud nesaf i wella. Defnyddia'r ysgol ei system olrhain a'i phrosesau safoni i sicrhau asesiadau cywir gan athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae asesiadau rhai disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn rhy hael.

Mae adroddiadau i rieni yn bodloni gofynion statudol. Maent yn darparu gwybodaeth am yr hyn y mae disgyblion yn ei wneud yn dda ac yn rhoi targedau addas ar gyfer gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae arweinwyr ac athrawon yn sicrhau amgylchedd hapus, trefnus a gofalgar lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae cysylltiadau cryf â'r eglwys leol yn sicrhau bod disgyblion yn gallu myfyrio'n effeithiol ar agweddau ar eu hysbrydolrwydd. Ceir trefniadau da i ddelio ag unrhyw faterion yn ymwneud ag aflonyddwch neu fwlio. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth da ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd trwy ystod eang o gysylltiadau ag asiantaethau allanol, fel gwasanaethau cwnsela a lleferydd ac iaith. O ganlyniad, mae disgyblion sydd angen cymorth emosiynol yn elwa ar gymorth arbenigol effeithiol. Mae'r rhai sy'n cael cymorth i wella eu lleferydd yn gwneud cynnydd da. Caiff y gwasanaethau hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion.

Mae systemau da ar waith i gefnogi nodi'n gynnar ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae cynlluniau addysg unigol yn bodloni anghenion y disgyblion yn dda. Mae oedolion yn darparu cymorth da i ddisgyblion mewn grwpiau ymyrraeth. Defnyddiant gofnodion cyfathrebu yn effeithiol i sicrhau parhad mewn dysgu rhwng y rhaglenni ymyrraeth a'r gweithgareddau ystafell ddosbarth ar gyfer y disgyblion hyn. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn rhoi cymorth, gofal ac arweiniad buddiol i ddisgyblion, sy'n arwain at gynnydd da mewn gwersi.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sydd ag ethos cynhwysol. Mae athrawon yn trin pob disgybl yn gyfartal ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i fanteisio ar ystod lawn darpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo goddefgarwch ac amrywiaeth yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae'r ysgol yn amgylchedd tawel a threfnus lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff.

Yn gyffredinol, mae staff yn defnyddio'r lle dan do yn yr ysgol yn briodol. Fodd bynnag, mae tua hanner yr ystafelloedd dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen yn fach ac nid yw athrawon yn defnyddio'r lle ychwanegol sydd ar gael dan do nac yn yr awyr agored i wella profiadau dysgu disgyblion. Mae tir yr ysgol yn eang, ond ni chaiff ei gynnal yn dda. Ceir ystod dda o adnoddau ar gyfer disgyblion, gan gynnwys cyflenwad helaeth o lyfrau ac offer TGCh.

Fe wnaeth arolygwyr dynnu sylw arweinwyr at faterion iechyd a diogelwch yn ymwneud â safle'r ysgol yn ystod yr arolygiad.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth yn creu amgylchedd gofalgar a chefnogol yn yr ysgol. Mae gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n gryf ar les disgyblion ac mae pob aelod o staff yn cefnogi hyn yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr ysgol yn canolbwyntio'n graff ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion bob amser.

Mae gan arweinwyr rolau clir a dynodedig o fewn strwythur rheoli'r ysgol, ac mae aelodau o uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol yn cyflawni mwyafrif o'u cyfrifoldebau yn foddhaol ar y cyfan. Defnyddiant ystod addas o ddata perfformiad i fonitro perfformiad pob disgybl. Fodd bynnag, nid ydynt yn goruchwylio holl feysydd y cwricwlwm yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn nodi a mynd i'r afael â diffygion yn ddigon da, er enghraifft yr arferion anghyson yn y Cyfnod Sylfaen a'r diffyg cynllunio tymor hir i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae ansawdd arweinyddiaeth y canolfannau adnoddau arbenigol yn gryf ac yn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar brofiadau dysgu o ansawdd uchel. Mae trefniadau ar gyfer

rheoli perfformiad yn cynnwys yr holl arweinwyr ac athrawon yn effeithlon. Mae targedau datblygiad unigol athrawon yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol, ac mae arweinwyr yn trefnu hyfforddiant yn briodol i gefnogi datblygiad staff.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol yn briodol. Mae llywodraethwyr wedi dechrau datblygu dealltwriaeth werth chweil o ddata perfformiad disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o sut mae'r ysgol yn cymharu ag ysgolion eraill tebyg. Fodd bynnag, dim ond yn gymharol ddiweddar y maent wedi dechrau cymryd rhan mewn arfarnu darpariaeth yr ysgol a deilliannau disgyblion. Maent yn cynnig her addas i arweinwyr mewn rhai meysydd o fywyd yr ysgol, er enghraifft sut mae'r ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau mwy cynhwysfawr ar gyfer arfarnu ei gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraniadau gan ystod ehangach o staff yr ysgol, a monitro gwaith disgyblion yn fwy rheolaidd ac arfarniadau addysgu. Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio data yn effeithlon i helpu i nodi diffygion mewn deilliannau ar gyfer disgyblion ac yn datblygu blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol. O ganlyniad, mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn nodi'n gywir nifer o flaenoriaethau ar gyfer gwella, fel yr angen i leihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn nodi diffygion yn safonau disgyblion a'r addysgu yn ddigon trylwyr. Nid oes gan yr ysgol weithdrefnau digon cryf ar gyfer adrodd yn ôl am ddiffygion a nodir a sicrhau bod staff yn gweithredu yn unol â nhw yn gyson.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n addas ar flaenoriaethau a nodwyd trwy arfarnu data perfformiad. Er enghraifft, mae'n canolbwyntio ar gamau gweithredu i wella medrau ysgrifennu disgyblion. Mae'r cynllun yn cynnwys ystod werth chweil o flaenoriaethau ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau addas o staff. Mae pob un o'r staff yn deall y blaenoriaethau gwella'n dda, ac yn creu adroddiadau arfarnol ar sut y maent yn rhoi'r targedau hyn ar waith yn eu dosbarthiadau. Er enghraifft, canolbwyntiodd yr ysgol ar ddatblygu arferion cyfiawnder adferol, ac mae ymddygiad disgyblion wedi gwella o ganlyniad. Arweiniodd y ffocws ar wella medrau personol a chymdeithasol disgyblion at welliant nodedig mewn deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen hefyd. Fodd bynnag, mae camau gweithredu gwella mewn meysydd pwysig, fel gwella deilliannau ar gyfer bechgyn, yn llai llwyddiannus.

Mae rhai argymhellion o'r arolygiad diwethaf, fel gwella ansawdd yr addysgu a datblygu rôl arweinwyr mewn monitro safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb, yn parhau i fod yn feysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â rhieni mewn ystod eang o bartneriaethau er lles y disgyblion. Mae arweinwyr yn gwahodd rhieni i'r ysgol i ddysgu am y modd y mae eu plant yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd. Mae rhieni'n mynychu gwersi ac wedyn yn cyfarfod mewn sesiwn grŵp i drafod yr hyn y maent wedi'i ddysgu. Mae hyn yn galluogi rhieni i ddeall profiadau dysgu disgyblion a'u cynorthwyo gartref yn fwy effeithiol.

Mae rhaglen yr ysgol ar gyfer tadau a bechgyn ('dads and lads') yn datblygu partneriaethau gyda thadau bechgyn i annog darllen. Mae'n helpu rhieni i ddysgu am y strategaethau y gallant eu defnyddio i gynorthwyo disgyblion â'u darllen gartref ac mae'n datblygu brwdfrydedd i ddarllen ymhlith disgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae mwy o fechgyn o'r grŵp hwn yn darllen yn amlach.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o bartneriaid i helpu i wella adnoddau'r ysgol. Er enghraifft, mae cwmnïau lleol wedi cyfrannu nifer sylweddol o gyfrifiaduron llechen ac wedi ariannu adeiladu wal ddringo. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion cynradd ac ysgol uwchradd leol i rannu profiadau ac adnoddau'n effeithiol. O ganlyniad, gall disgyblion ddefnyddio offer TGCh o ansawdd uchel a labordai gwyddoniaeth sy'n gwella'u profiadau dysgu'n dda. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'r ysgolion hyn hefyd i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol yn ddidrafferth. Er enghraifft, mae mentrau chwaraeon clwstwr yn galluogi disgyblion i gyfarfod disgyblion o ysgolion eraill cyn iddynt fynychu eu hysgol newydd.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol nifer uchel o staff sydd â chymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm. Maent yn elwa ar ystod briodol o gyfleoedd hyfforddi sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion hyfforddi yn foddhaol.

Mae mwyafrif y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cefnogi cyflogaeth staff. Mae'r staff hyn naill ai'n helpu disgyblion llai abl i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd neu'n monitro a chefnogi strategaethau i wella presenoldeb a rhoi arferion cyfiawnder adferol ar waith ar draws yr ysgol. Mae'r strategaethau hyn yn cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed, ond nid oes angen y strategaethau ymyrraeth hyn ar leiafrif sylweddol o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac felly nid ydynt yn elwa'n uniongyrchol ar ddefnyddio'r cyllid. At ei gilydd, nid yw arweinwyr yr ysgol yn canolbwyntio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ddigon da ar y disgyblion a ddylai elwa arno.

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth dda o gyllid yr ysgol, ond nid yw'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yr ysgol yn ddigon trylwyr. Ar hyn o bryd, mae costau staffio'r ysgol yn gyfran rhy uchel o ddyraniad cyllideb yr ysgol. Mae hyn yn golygu nad oes digon o gyllid ar gyfer agweddau pwysig eraill ar fywyd yr ysgol, fel gwaith gofalwr, a'u bod yn aneffeithiol.

Er bod safonau disgyblion yn ddigonol ar y cyfan, mae'r ffordd y caiff adnoddau, gan gynnwys staffio, eu rheoli, yn wan, ac nid yw'r cwricwlwm yn sicrhau profiadau dysgu priodol ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6702017 - Ysgol Gynradd Danygraig**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 283 |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 39.0 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 31 | 36 | 35 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 71.0 | 77.8 | 88.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 36 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 74.2 | 77.8 | 88.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.1 | 22.2 | 31.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 36 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 71.0 | 86.1 | 88.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 19.4 | 22.2 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 36 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.6 | 88.9 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.9 | 13.9 | 54.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6702017 - Ysgol Gynradd Danygraig**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 283 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 39.0 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 28 | 41 | 38 | 23 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | 80.5 | 73.7 | 78.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 41 | 38 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 87.8 | 78.9 | 82.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 39.3 | 31.7 | 26.3 | 30.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 41 | 38 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.3 | 85.4 | 76.3 | 82.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 32.1 | 22.0 | 28.9 | 30.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 41 | 38 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.3 | 82.9 | 86.8 | 82.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 19.5 | 31.6 | 30.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 110 | 109 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 109 | 107 | 2 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 108 | 106 | 2 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 110 | 108 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 110 | 109 | 1 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 104 | 101 | 3 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 110 | 110 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 108 | 108 | 0 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 107 | 100 | 7 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 110 | 109 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 101 | 87 | 14 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 109 | 94 | 15 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010..

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 42 | 28 | 13 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 67% | 31% | 0% | 2% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 41 | 34 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 41 | 32 | 8 | 0 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 78% | 20% | 0% | 2% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 40 | 31 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 38 | 21 | 16 | 1 | 0 | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 55% | 42% | 3% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 40 | 26 | 14 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 41 | 27 | 14 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 41 | 24 | 13 | 4 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 59% | 32% | 10% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 39 | 27 | 11 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 69% | 28% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 42 | 27 | 13 | 2 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 64% | 31% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 40 | 30 | 10 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 42 | 25 | 14 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 60% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 42 | 24 | 16 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 57% | 38% | 2% | 2% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 42 | 26 | 15 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 41 | 23 | 14 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 56% | 34% | 10% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 41 | 26 | 14 | 1 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 63% | 34% | 2% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 36 | 22 | 13 | 0 | 1 | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 61% | 36% | 0% | 3% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 41 | 26 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 38 | 25 | 12 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 66% | 32% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jane McCarthy | Arolygydd Cofnodol |
| Andrew Thorne | Arolygydd Tîm |
| Matthew Evans | Arolygydd Lleyg |
| Christopher Andrew Liptrot | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nigel Morgan | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.